

**Enw:** Edward Rowley Morris  
**Dyddiad geni:** 1828  
**Dyddiad marw:** 1893  
**Rhiant:** Edward Rowley Morris  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** hynafiaethydd  
**Maes gweithgaredd:** Hanes a Diwylliant  
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Ganwyd 22 Ebrill 1828 yn New Hall, Llanfihangel-yng-Ngheri (' Kerry '). Addysgwyd ef ar gyfer urddau Anglicanaidd, ond aeth i America yn 1851. Wedi dychwelyd, ymunodd ar y dechrau â'i dad (o'r un enw) yn ei fusnes gwlan yn y Drenewydd; ond yn ddiweddarach bu ganddo fusnes glo a chalch yn y Trallwng ac yno bu'n flaenllaw ym mywyd cyhoeddus ei dref. Eithr aeth hynafiaethau â mwyfwy o'i fryd, ac yn 1881 symudodd i Lundain, i fyw ar drothwy'r cronfeydd o ddogfennau hanesyddol. Yno y bu farw, 24 Gorffennaf 1893, ond yn y Drenewydd y claddwyd ef. Yr oedd yn un o aelodau cyntaf y 'Powysland Club,' a chyfrannodd liaws o ysgrifau pwysig i'r *Mont. Coll.*, y *Bye-Gones*, a chyfnodolion cyffelyb. Ym marn ei gyd-drefwr a'i gyd-hynafiaethydd [Richard Williams](#) yr oedd ei wybodaeth o hanes Sir Drefaldwyn yn 'perfectly unique.'

## Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

## Ffynonellau

R. Williams, *Montgomeryshire Worthies* (1894)

*Archaeologia Cambrensis*, 1893, 363-4

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: [71165134](#)

Wikidata: [Q20732974](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

